

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos Fercher, Gorffennaf 4^{ydd} 2018 yn yr Ystafell Ddarllen, yr Hendy.

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
B Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
C Higgins
M Nicholas
I Barrett
S Lyle
C Davies
E Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd A Blackley, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion.

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr C Higgins A Evans, S Lyle a M Davies.

Cofnod rhif 3 – Datgan Buddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 3 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant canlynol:

- Hyfforddiant i Gadeiryddion
- Hyfforddiant y Côt Ymddygiad

Cofnod rhif 5 – Datganiad o Dderbyn swydd fel Cynghorydd

Roedd Mr Iain Barrett yn bresennol yn ei gyfarfod cyntaf ers iddo gael ei gyfethol yn aelod o'r Cyngor, ac arwyddodd ei ddatganiad o dderbyn ei swydd fel Cynghorydd dros ward Tycroes, Cyngor Cymuned Llanedi.

Cofnod rhif 6 – Wendy Evans – Preswlydd Tycroes

Croesawodd y Cyngor Mrs Evans a fynegodd ei chonsym ynghylch diffyg presenoldeb aelodau'r cyhoedd a chynghorwyr yn yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar. Yn ei barn hi dylai'r Cynllun Bro, ymysg materion eraill, ystyried y materion canlynol:

- Ni ddylid adeiladu ar dir ger Heol Brown.
- Mae dal i fod problemau parcio ar Sgwâr Tycroes, ac fe fyddai'n bosib creu ardal barcio ger y siop fwyd Tseinïadd, sydd wedi cau erbyn hyn. Dywedodd y Cynghorydd c Griffiths efallai ei bod hi hefyd yn bosib i greu maes parcio gyferbyn â'r ysgol yn Nhycroes.
- Gwnaethpwyd cais i osod twmpathau cyflymder yn Heol Brown er mwyn gwella diogelwch y plant sy'n mynychu'r maes chwarae.

Cofnod rhif 7 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Mehefin 6^{ed} 2018

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm – cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 8 – Materion yn Codi

Cofnod rhif 9 – yr Ystafell Ddarllen

Dywedodd y Clerc bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Cadeirydd. y Cynghorydd Alan Evans, y SDC a'r Clerc gydag Adele Chilton i drafod y defnydd o'r Ystafell Ddarllen at y dyfodol, yn enwedig o ystyried bod angen defnyddio'r adeilad at ddibenion cymunedol. Awgrymwyd y syniadau canlynol er mwyn cynyddu'r defnydd cymunedol o'r Ystafell Ddarllen:

- Arddangos gwaith celf plant ac artistiaid yr ardal leol drwy brynu a gosod cyfarpar i hongian y gwaith celf ar y walydd.
- Sefydlu cylch cyfeillion yng nghymuned yr Hendy.
- Trefnu gweithgareddau eraill o natur cymunedol yn y café ar ddau ddiwrnod yr wythnos.

Roedd y Cynghorydd A Blackley wedi datgan buddiant yn yr ystafell ddarllen gan fod ei ferch yn gwirfoddoli gydag Adele ar foreau Sadwrn.

Penderfynwyd bwrw ati i brynu system arddangos gwaith celf am y swm o £250, ac os bydd unrhyw artist am werthu eu cynnyrch yn yr Ystafell Ddarllen yna codir tâl o 30% fel pris comisiwn.

Cofnod rhif 13 – Pwyllgor Cyllid

Oherwydd yr oedi wrth aros am yr adroddiad oddiwrth yr archwilydd mewnol, nodwyd nad oedd hi wedi bod yn bosib trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid. Cytunwyd cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ym mis Medi.

Cofnod rhif 9 – Cynhyrchu Clwyd

Penderfynwyd bod y Cyngor yn gosod clwydi newydd yn y fynediad uchaf i Barc yr Hendy. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith hyn, a nodwyd bod Pierro Mariani yn contractwr lleol y gellid ei ystyried i gyflwyno dyfynbris.

Cofnod rhif 10 – Prydles – Parc Talyclun

Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor parthed â maint yr eiddo a brydleswyd yng nghyswllt caffael prydles ar gyfer yr eiddo hwn. Gohiriwyd y mater hwn o gyfarfod blaenorol y Cyngor. Roedd aelodau'r Cyngor wedi mynegi peth anfodlonrwydd ynghylch y ffaith bod y Tirfesurydd wedi bod yn gyfrifol am drosglwyddo prydlesi ar ran y Cyngor pan y trosglwyddwyd asedau y parciau cyn hyn, ac wedi codi ffi am wneud y gwaith hyn, gan fod y fath waith y tu allan i dermau ei gyflogaeth. Serch hynny, riportwyd nad oedd, mewn gwirionedd, wedi codi unrhyw ffi ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Hysbysodd y Tirfesurydd y Cyngor nad oedd hi'n briodol ei fod yn bresennol yn y cyfarfod pe bai'r Cyngor am drafod y mater ymhellach gan oedd ganddo wrthdrawiad buddiannau posib. Cytunodd y Cyngor â hyn, a gofynnwyd i'r Tirfesurydd adael y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei drafod ymhellach.

Wedi iddo ail-ymuno â'r cyfarfod, hysbyswyd y Tirfesurydd bod y Cyngor wedi **penderfynu** gofyn am dri dyfynbris annibynnol am y gwaith cyfreithiol/cynnig cyngor tirfesur sydd yn glwm â throsglwyddo'r ased hwn.

Cofnod rhif 11 – Datblygu'r Wefan

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd B Evans ynghylch cyfarfod a fynychodd yn ddiweddar, yng nghwmni'r SDC, gydag United Online Services i drafod cyflogi'r cwmni i ddatblygu gwefan newydd i'r Cyngor. Gan fod Cyngor Cymuned Llannon hefyd yn ystyried datblygu gwefan newydd, nodwyd y byddai'n bosib arbed arian pe byddai'r ddau Gyngor yn gosod archeb 'ar y cyd', gan y byddai'r mwyafrif o gynnwys y ddwy safle yn cael ei ddylunio i'r un fanyleb.

Penderfynwyd cynnull gweithgor yn cynnwys y Clerc, y SDC, y Cynghorydd Byron Evans a'r Cynghorydd Stuart Evans at ddiben datblygu manyleb ar gyfer

y wefan newydd. Cytunwyd bod y grŵp yn derbyn awdurdod dirprwyedig i ofyn am ddyfynbrisiau am y prosiect ac i negodi cyd-drefniant gweithredol gyda Chyngor Cymuned Llannon pe byddai hynny'n briodol.

Cofnod rhif12 – Adroddiad y SDC

Cafwyd trosolwg gan y SDC ar gynnwys ei hadroddiad, a ddsbarthwyd yn flaenorol, a chafwyd trafodaeth ynghylch y materion canlynol:

- Cynhelir y cyfarfodydd Ymgynhori gyda'r Gymuned ar Orffennaf 11^{eg} yng Nghlwb Rygbi yr Hendy rhwng 4 ac 8 yh, ac yng Nghlwb Rygbi Tycroes (treniant dros dro) ar Orffennaf 12^{f^{ed}}.
- Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r trefniadau i gofio Terfysg Beca. Dywedodd y Cyngorydd G Thomas ei fod wedi cytuno i fynychu'r digwyddiad wedi'i wisgo yn nillad merch ac ar gefn ceffyl.
- Fel rhan o'r dathlu roedd y Cyngor wedi ystyried comisiynu mainc goffa, i'w gosod ar Sgwâr yr Hendy. Efallai bod hefyd y posibilrwydd o gyhoeddi'r gwaith a gynhyrchwyd ar ffurf llyfryn gan yr Ysgol, a'i werthu yn yr ardal.
- Mae'r dair ysgol wedi cytuno i ymuno â'r prosiect chwedleua er mwyn crynhoi syniadau'r plant ynghylch anghenion y gymuned at y dyfodol ac, os bosib, i gynhyrchu cofnod fideo.
- Adroddwyd bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn Neuadd Eglwys Llanedi wedi bod yn dda iawn.

Cylch Cyfeillion

Dywedwyd bod y grŵp wedi'i enwebu am wobwr gan Groundwork, ac mae'r mudiad yn mynd o nerth i nerth.

Basgedi Crog

Mae'r rhain wedi cael eu gosod yn Llanedi, gyda'r mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud gan Tony Masters, gwirfoddolwr lleol.

Diolchwyd i'r SDC am y gwaith y mae hi eisoes wedi cwblhau.

Cofnod rhif 13 – Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data

Roedd y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i gopïau o'r dogfennau canlynol, a ddsbarthwyd yn flaenorol:

- Polisi Gwybodaeth a Diogelu Data
- Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- Ffurflen - caniatâd cadw gwybodaeth

Wedi trafodaeth fanwl ar gynnwys y dogfennau, **penderfynwyd** cymeradwyo'r dogfennau at ddefnydd y Cyngor.

Cofnod rhif 14 – Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i drefnu cyfarfod o'r pwyllgor uchod ar ddiwedd mis Awst.

Cofnod rhif 15 – Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

Nodwyd bod fersiwn newydd o'r rheolau sefydlog model wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar. **Penderfynwyd** gohirio ystyriaeth o'r ddogfen hon tan fod y gweithgor sy'n delio â'r mater hwn wedi cael y cyfle i gynnal cyfarfod pellach. Cytunwyd bod y Cyngorydd A Evans yn cydlynu'r mater hwn.

Cofnod rhif 16 – Cyfrifon y Cyngor

Cafwyd trosolwg gan y Clerc o gyfrifon diwedd blwyddyn y Cyngor, dogfen a ddsbarthwyd i'r aelodau yn flaenorol.

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yr Archwilydd Mewnol ynghylch cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2017-2018. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a nodwyd bod yr holl brofion a osodir ynghylch gweithdrefnau rheoli mewnol y Cyngor wedi eu cwblhau'n foddhaol. Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r datganiad blynyddol gyda'r bwriad o anfon hwn ymlaen at yr Archwilydd Allanol.

Cofnod rhif 17 – Archwiliad Mewnol

Roedd y Cyngor wedi cwblhau arolwg o berfformiad yr Archwilydd Mewnol gan gyfeirio'n benodol at y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Blynyddol. **Penderfynwyd** nodi boddhad y Cyngor gyda gwaith yr Archwilydd Mewnol ac i gadarnhau ei gyflogaeth pellach yn y rôl hon.

Cofnod rhif 18 – Hysbysfyrddau

Roedd y Cyngor wedi derbyn adroddiad ynghylch yr opsiynau posib i osod hysbysfyrddau newydd yn Sgwâr yr Hendy ac yn Nheras y Felin.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn prynu 2 hysbysfwrdd i'w gosod yn y lleoliadau uchod, hysbysfwrdd glas yn Nhycroes ac un tipyn yn fwy, o liw gwyrdd, yn yr Hendy.

Cofnod rhif 19 – Cysgodfannau Bws

Roedd y Cyngor wedi derbyn dyfynbrisiau oddwirth amrywiol gwmniau am gysgodfannau bws. **Penderfynwyd** mynd ati i brynu dwy gysgodfan fws dau rhaniad am y pris cystadleuol o £5,000; coch yw'r lliw a ffefrir.

Cofnod rhif 20 – Atal y Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 21 – Cytundebau Staff

Penderfynwyd trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Personél yn ystod y mis nesaf i drafod cytundebau'r staff.

Cofnod rhif 22 – Arfarnu Staff

Penderfynwyd bwrw ati gydag arfarniad staff y Clerc ar ddyddiad i'w gytuno.

Cofnod rhif 23 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

- S/374060 Dymchwel yr adeilad anfoddhaol presennol a chodi tŷ annedd newydd ar yr un ôl-troed yn 2 Heol Llanedi, Fforest. Mr Graham Mathias.
- S/37402 Gosod tanciau storio dŵr a ddraenir o'r wyneb, yn gysylltiedig â'r cynllun a gyflwynwyd fel rhan o'r cais materion a gedwir yn ôl o ganiatâd cynllunio amlinellol S/29469 ar dir i'r gogledd o Glwb Rygbi Tycroes, Heol Penygarn, Tycroest. Chris Jenkins.
- S/37358 Hyd at 27 tŷ annedd – Materion a Gedwir yn Ôl, caniatâd cynllunio S/29469 ar dir i'r gogledd o Glwb Rygbi Tycroes, Heol Penygarn, Tycroes. Chris Jenkins.

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.
Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 24 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir

Dywedodd y Cynghorydd G Thomas bod y Sir yn paratoi gorchymyn arbrofol ar gyfer Heol y Parc er mwyn delio â phroblemau parcio yn y lleoliad hwn.

Mynegwyd pryder y bydd hyn ond yn symud y ceir sy'n cael eu parcio mewn modd anaddas i'r strydoedd cyfagos.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd T Higgins ynghylch y materion canlynol:

- Roedd hi wedi cwrdd â John McAvoy i drafod gwariant yn Heol Coopers.
- Roedd hi wedi mynychu cyfarfodydd a drefnwyd yn gysylltiedig ag Ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd.

Cofnod rhif 25 – Arolwg Coed

Derbyniodd y Cyngor adroddiad arolwg coed oddiwrth Mr John Andrews, yn rhestru'r materion brys y mae angen i'r Cyngor ystyried ynghylch y coed a leolir yn y parciau cyhoeddus. **Penderfynwyd** gofyn am gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru weld os oedd y Cyngor yn gymwys i wneud gwaith ar lan yr afon, ac i wneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru eu bod hwythau yn gwneud y gwaith ar yr afon. Yn ychwanegol, **pendderfynwyd** gofyn am ddyfynbrisiau gan ddynion trin coed cymwysedig am yr holl waith, gan gadw ar wahan y coed sydd wedi'u lleoli ger yr afon ym Mharc yr Hendy.

Cofnod rhif 26 – Ystadegau Trosedd

Derbyniodd y Cyngor yr ystadegau trosedd am y tri mis blaenorol fel y'u darparwyd gan yr Heddlu.

Cofnod rhif 27 – Gweithdy CDLI ar gyfer Cynghorau Cymuned

Penderfynwyd bod y Cynghorydd M Nicholas a'r Cynghorydd L Griffiths yn mynychu'r gweithdy uchod ar ran y Cyngor.

Cofnod rhif 28 – Cynhadledd Un Llais Cymru, Medi 29^{ain}

Penderfynwyd bod y Cynghorydd E Davies yn cynrychioli'r Cyngor yn y gynhadledd uchod, yn amodol ar wirio ei fod ar gael ar y dyddiad hwnnw.

Cofnod rhif 29 – Heol Brown

Derbyniwyd cwyn oddiwrth Mr Clive Hanham ynghylch amrywiol faterion sy'n effeithio ar y maes chwarae Heol Brown. **Penderfynwyd** prynu leinin newydd i'r bin sbwriel a leolir yn y maes chwarae.

Cofnod rhif 30 – Lwfans Cynghorydd

Cadarnhaodd y Cynghorydd I Barrett ei fod am dderbyn y lwfans blynyddol a gynigir i Gynghorydd.

Cofnod rhif 31 - Gohebiaeth Gyffredinol**Penderfynwyd** nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Awdur	Pwnc
John Andrews a'i fab	Argymhellion - Iechyd Coed
Cyngor Sir Caerfyrddin, Rheoli Traffig	Amserau aros yn Heol y Parc, yr Hendy.
Cyngor Sir Caerfyrddin	Casi – Llwybrau Diogel i'r Ysgol
Un Llais Cymru	Grantiau am Silwétau Sul y Cofio
Ysgol Llanedi	Llythyr o ddiolch am rodd
Cyngor Tref Pontarddulais	Y Pwyllgor Digwyddiadau ar ddydd Llun, Gorffennaf 9 ^{ed} am 7.00 yh, i drafod Canmlwyddiant y Rhyfel Mawr
Sarah ac April	Deiseb Cynllunio
Cyngor Sir Caerfyrddin	Taflen y Côt Ymddygiad

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.30 yh

Llofnod **Dyddiad**
Cadeirydd